



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

Adroddiad ar weithgareddau 2017-18

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Bryn Menai
Ffordd Caergybi
Bangor
Gwynedd
LL57 2JA

01248 371839

swyddfa@cyfieithwyr.cymru

www.cyfieithwyr.cymru



@cyfieithwyr

Cofrestrwyd yng Nghymru: 4741023

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r corff cenedlaethol sy'n arwain, datblygu a hyrwyddo cyfieithu proffesiynol. Hi yw'r unig gymdeithas broffesiynol ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg/Saesneg, p'un a ydynt yn gyfieithwyr testun ynteu'n gyfieithwyr ar y pryd, a bu'n allweddol wrth greu cymuned o gyfieithwyr proffesiynol ledled Cymru.

Mae gan y Gymdeithas dair lefel o aelodaeth: Cyflawn a Sylfaenol ym maes cyfieithu testun, ac aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd (CAP), y naill i'r Saesneg a'r llall i'r Gymraeg.

Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg/Saesneg: mae aelodau'r Gymdeithas yn gweithio mewn swyddi yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn y sector preifat, ac ar eu liwt eu hunain.

Ers ei sefydlu yn 1976 mae'r Gymdeithas wedi:

- cynnal, datblygu a hyrwyddo'r safonau proffesiynol uchaf mewn cyfieithu Cymraeg/Saesneg trwy osod y safonau cyfieithu proffesiynol hynny, a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

- sicrhau bod y proffesiwn/diwydiant cyfieithu yn datblygu'n effeithiol fel rhan o'r broses o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a'i fod yn gallu ymateb yn rhagweithiol i anghenion y Gymru ddwyieithog sydd ohoni.

Wrth fynd ati i gyflawni hyn, bwriad y Gymdeithas yw cynrychioli'r rhan fwyaf o gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg/Saesneg, lleihau'r achosion lle gall unrhyw un ei (g)alw ei hun yn gyfieithydd, a gwella dealltwriaeth a gwybodaeth y rhai sy'n gyfrifol am gaffael gwasanaethau cyfieithu a rhoi'r sicrwydd iddynt y gallant ddisgwyl gwaith o safon.

Trwy roi grant blynyddol i'r Gymdeithas ers 1997 – yn uniongyrchol ers 2016 a thrwy law Comisiynydd y Gymraeg (2012-16) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn hynny – mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi dros £1.7 miliwn yng ngwaith y Gymdeithas i ddatblygu, hyrwyddo a chryfhau'r diwydiant/proffesiwn cyfieithu Cymraeg/Saesneg, 'cefnogaeth barhaus' a gaiff ei chydabod yn 'Cymraeg 2050'.



Rhagair

Yn 2017-18 mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru wedi parhau i arwain, datblygu a hyrwyddo cyfieithu proffesiynol yn hynod effeithiol. Yn ogystal â'r gwaith arferol o weinyddu'r drefn aelodaeth, cynnal arholiadau a phrofion a datblygiad a hyfforddiant, cyflwynwyd gweithgareddau newydd yn ystod y flwyddyn. Sefydlwyd Cronfa arbennig i sbarduno gyrfa cyfieithwyr ifanc a Phrawf Cyfieithu ar y Pryd i'r Gymraeg, cynhaliwyd ein Slam Cyfieithu cyntaf, a chyflwynwyd Gwobr Berwyn am y tro cyntaf i'r ymgeisydd mwyaf addawol yn yr arholiad Sylfaenol, cyfieithu i'r Saesneg.

Rwyf i, Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'r aelodau'n ddiolchgar iawn i'n staff, Geraint Wyn Parry a Nia Wyn Jones, am eu gwaith trylwyr a gofalus trwy'r flwyddyn.

Mae'r ffigurau aelodaeth yn aros yn foddhaol o uchel. Mae'n galonddid gweld cynifer o gyfieithwyr wrth eu gwaith yn argyhoeddedig o werth bod yn aelod o gymdeithas broffesiynol.

A chymaint o newid ar hyn o bryd, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, mae'r Gymdeithas yn hynod o bwysig wrth gynnig i bobl sicrwydd ynghylch safonau a phroffesiynoldeb ym maes cyfieithu Cymraeg / Saesneg.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Lywodraeth Cymru am ddyfarnu grant i'r Gymdeithas yn 2017-18. Yn ogystal â rhoi elfen o sicrwydd i ni, mae hefyd wedi'n galluogi i barhau â'r gwaith pwysig o ddatblygu a hyrwyddo cyfieithu proffesiynol.

Mae'n bleser gen i gyflwyno'r adroddiad ar weithgareddau'r Gymdeithas yn 2017-18 i'ch sylw. Wrth wneud hynny hoffwn ddiolch yn fawr i bob un a fu'n rhan o'r gwaith pwysig a wnaed gan y Gymdeithas ac a ddisgrifir isod.

*Claire Richards,
Cadeirydd*



Cynnwys

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru	1
Rhagair	2
Cynnwys yr adroddiad	3
1. Cymraeg 2050	4
2. Cyflwyniad i'r adroddiad	5
3. Amcan strategol 1: Cynnal a chynyddu'r aelodaeth, aelodaeth y Gymdeithas	6
4. Amcan strategol 1: Cynnal a chynyddu'r aelodaeth, y drefn arholi	9
5. Amcan strategol 2: Hybu datblygu proffesiynol	13
6. Amcan strategol 3: Cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol	16
7. Amcan strategol 4: Codi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol	18
8. Llywodraethiant a rheolaeth	20
Gair i gloi gan y Prif Weithredwr	21



1. Cymraeg 2050

Yn dilyn cyhoeddi strategaeth newydd Llywodraeth Cymru, 'Cymraeg 2050', ym mis Gorffennaf 2017, penderfynwyd diwygio Cynllun Strategol 2016-19 i gyd-fynd â rhaglen waith gynta'r strategaeth am y cyfnod 2017-21.

Yng nghyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 7 Rhagfyr 2017, felly, cymeradwywyd Cynllun Strategol 2018-21. O hyn ymlaen, bwriad y Gymdeithas fydd cyhoeddi ei chynlluniau strategol i gyd-fynd â chyfnodau rhaglenni gwaith Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r strategaeth 'Cymraeg 2050'.

Mae 'Cymraeg 2050' yn cydnabod pwysigrwydd strategol y proffesiwn cyfieithu a'r angen am gyflenwad parod o gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd galluog a chymwysedig. Mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod y 'datblygiad sylweddol yn y proffesiwn dros y blynyddoedd diwethaf' ac awydd y Llywodraeth 'i weld y proffesiwn yn esblygu ac yn addasu ar gyfer y dyfodol' a fydd 'yn golygu parhau i sicrhau cyflenwad parod o gyfieithwyr proffesiynol ac ieithyddion graddedig â sgiliau modern, a gefnogir gan drefn achredu a rheoleiddio gadarn sy'n seiliedig ar safonau ac ymddygiad proffesiynol'.

Mae'r strategaeth yn cyfeirio'n benodol at yr angen i gynyddu'r defnydd o gyfieithu ar y pryd ac at ddatblygiadau technolegol. Mae'r adroddiad hwn yn dangos fod y Gymdeithas wedi bod yn rhagweithiol yn y meysydd hyn trwy gefnogi cynlluniau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ym maes CAP, a thrwy gydweithio â Chynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnig arweiniad i faes cyfieithu peirianyddol.

Mae i gyfieithu le pwysig yn y nod uchelgeisiol a osodir yn 'Cymraeg 2050'. Mae'r Gymdeithas hithau'n eiddgar i barhau ar flaen y gad yn natblygiad y proffesiwn/diwydiant yn ystod y blynyddoedd nesaf ac i gydweithio â Llywodraeth Cymru ac eraill wrth wireddu amcanion y strategaeth hon.



2. Cyflwyniad i'r adroddiad

Mae'r Adroddiad ar weithgareddau 2017-18 Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru wedi ei baratoi i adlewyrchu amcanion strategol y Cynllun Strategol. Bydd y penodau sy'n dilyn yn adrodd ar gyflawni pedwar amcan strategol y Gymdeithas: cynnal a chynyddu'r aelodaeth, hybu datblygu proffesiynol, cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol, a chodi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol; yn ogystal â threfniadau llywodraethiant a rheoli'r Gymdeithas.

Mae'r Cynllun Strategol yn hyrwyddo nod ac amcanion y Gymdeithas trwy adeiladu ar seiliau cadarn y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yn caniatáu i'r Gymdeithas barhau ei chenhadaeth o ddatblygu'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg ymhellach.

Roedd yr egwyddor graidd hon wrth wraidd yr hyn a gyflawnodd y Gymdeithas yn ystod 2017-18 wrth iddi barhau i gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

Gwnaed hyn mewn sawl dull a modd, gan gynnwys:

- cynyddu nifer y cyfieithwyr y mae'n eu cynrychioli;
- cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd;
- hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr trwy drefnu rhaglen amrywiol o weithdai, ac annog a hyrwyddo datblygu proffesiynol parhaus;
- cynnal perthynas â sefydliadau Addysg Uwch, yn enwedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a'r cyrsiau academaidd yn y maes;
- cynnal a meithrin ein cysylltiadau â chyrrff a sefydliadau eraill y tu mewn a'r tu allan i'r byd cyfieithu;
- hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol y Gymdeithas, codi proffil cyfieithu proffesiynol a marchnata'i haelodau.

Rhydd yr adroddiad hwn drosolwg o weithgareddau 2017-18 a gwybodaeth am drefniadau llywodraethu ac ariannu'r Gymdeithas.

Wrth ddarllen yr adroddiad hwn fe'ch cynghorir yn gryf i ymweld â gwefan y Gymdeithas - <https://www.cyfieithwyr.cymru/cy> - lle cewch wybod rhagor am y Gymdeithas a'r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Cafodd y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru yn 2017-18.



3. Amcan strategol 1: Cynnal a chynyddu'r aelodaeth, aelodaeth y Gymdeithas

Nod yr amcan strategol hwn yw sicrhau y bydd y Gymdeithas yn cynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr, ac yn ymestyn ei dylanwad a'i heffaith trwy gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol.

Mae'r amcan strategol hwn yn ymwneud ag aelodaeth y Gymdeithas a'i threfn arholi. Rhennir y rhain yn ddwy bennod: mae'r bennod hon yn ymdrin â materion yn ymwneud a rheoli a gweinyddu'r aelodaeth, a bydd y bennod nesaf yn ymdrin â'r drefn arholi.

Dim ond drwy lwyddo yn Arholiadau Aelodaeth Testun neu ym Mhrawf CAP y Gymdeithas y gellir dod yn aelod. Mae dwy lefel o aelodaeth i gyfieithwyr testun, Cyflawn a Sylfaenol. Un lefel o aelodaeth sydd i gyfieithwyr ar y pryd, a honno naill ai i'r Saesneg neu i'r Gymraeg. Dim ond unigolion all fod yn aelodau o'r Gymdeithas.

3.1 Aelodaeth y Gymdeithas

Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan y Gymdeithas 365 o aelodau, y nifer uchaf erioed yn ei hanes, a chwech yn fwy nag ar 31 Mawrth 2017, fel a ganlyn:

Aelodau Cyflawn: 197

Aelodau Sylfaenol: 150

Aelodau Cyfieithu ar y Pryd: 70*

* O'r 70 Aelod CAP, mae 18 yn Aelodau CAP yn unig. Mae'r lleill naill ai'n Aelodau Cyflawn (42) ynteu'n Aelodau Sylfaenol (10) hefyd.

Mae pob un yn Aelod CAP i'r Saesneg, a 17 yn Aelodau CAP i'r Gymraeg.

Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg/Saesneg. Mae 35% o'r aelodau'n gweithio yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. O'r aelodau sy'n gweithio yn y sector preifat, mae 40% ar eu liwt eu hunain a 21% yn gweithio i gwmnïau cyfieithu. Nid yw 4% o'r aelodau'n cyfieithu wrth eu gwaith pob dydd.

Mae blwyddyn aelodaeth y Gymdeithas yn dechrau ar 1 Ebrill. Gweithredir trefn gadarn a theg yn ystod Ebrill a Mai bob blwyddyn ar gyfer atgoffa ac ail-atgoffa aelodau i dalu'u tâl aelodaeth. O ganlyniad, dim ond enwau aelodau sydd wedi talu'u tâl aelodaeth am y flwyddyn sydd ar wefan y Gymdeithas.

Cynigir nifer o fuddion a gwasanaethau i'r aelodau, gan gynnwys bwletin newyddion rheolaidd, rhannu gwybodaeth berthnasol, rhoi gostyngiadau ar gyfer gweithdai a digwyddiadau'r Gymdeithas, cynnig presenoldeb i bob aelod ar wefan y Gymdeithas, a threfnu Diwrnod i'r Aelodau bob blwyddyn a chyfleoedd eraill iddynt gyfarfod â'i gilydd.

Mae aelodaeth o'r Gymdeithas yn hanfodol i sawl cytundeb cyfieithu. Ymhlith y rhain, mae bod yn Aelod Cyflawn neu'n Aelod CAP yn un o'r prif feini prawf i gael mynediad i Fframwaith Cyfieithu a Chyfieithu ar y pryd Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.



3.2 Aelodaeth CAP i'r Gymraeg

Mewn ymateb i ofynion Safonau'r Gymraeg, penderfynodd y Gymdeithas y byddai'n sefydlu ail gategori o aelodaeth CAP, sef i'r Gymraeg. Felly, mae gan y Gymdeithas aelodaeth CAP i'r Saesneg ac i'r Gymraeg ar wahân. O hyn ymlaen bydd y Gymdeithas yn cynnal Prawf CAP i'r Gymraeg a fydd yn debyg i'r Prawf CAP presennol i'r Saesneg.

Wrth sefydlu'r ail gategori hwn o aelodaeth CAP, penderfynwyd na fyddai'r Aelodau CAP hynny a lwyddodd yn y Prawf CAP i'r Gymraeg ar gyfer y llysoedd yn 2009 yn gorfod sefyll prawf CAP arall, ac y byddent yn cael eu cydnabod yn y categori newydd o aelodaeth CAP i'r Gymraeg ar sail y llwyddiant hwnnw.

3.3 Ymddygiad proffesiynol

Wrth dalu eu tâl aelodaeth mae holl aelodau'r Gymdeithas yn gwybod bod disgwyl iddynt ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol. Ynghlwm wrth y Cod, mae gan y Gymdeithas drefn gwyno. Braff dweud na chafwyd yr un gŵyn yn erbyn aelod o'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gymdeithas hefyd yn cynnig Gwasanaeth Asesu Ansawdd Cyfieithiad, gwasanaeth y codir ffi amdano.

3.4 Cydnabod Meysydd Arbenigedd Proffesiynol

Trefn ar gyfer cydnabod Aelodau Cyflawn ac Aelodau CAP y Gymdeithas yn unig yw'r Maes Arbenigedd Proffesiynol. Mae gan y Gymdeithas dri Maes Arbenigedd Proffesiynol:

CAP yn y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd (a ddatblygwyd drwy ymgynghori â swyddogion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi), ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd 19 Aelod CAP wedi cael y gymeradwyaeth hon.

Cyfieithu Deddfwriaethol (a ddatblygwyd drwy ymgynghori â swyddogion Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru), ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd 11 Aelod Cyflawn wedi cael y gymeradwyaeth hon.

Cyfieithu Cyfathrebu, ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd 15 Aelod Cyflawn wedi cael y gymeradwyaeth hon.

Caiff yr aelodau hynny a lwyddodd yn y Prawf CAP yn yr Undeb Ewropeaidd yn 2009 hefyd eu cydnabod dan y drefn hon.



3.5 Cydnabyddiaeth i eraill

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod cwmnïau cyfieithu trwy drefn y **Cwmni Cydnabyddedig**. Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd y gydnabyddiaeth i Nico, Caerdydd. Caiff naw cwmni eu cydnabod yn Gwmni Cydnabyddedig.

Cynigir **cydnabyddiaeth i sefydliadau cyhoeddus ac yn y trydydd sector** fel rhai Cydnabyddedig neu Gyswllt, yn dibynnu ar fodloni meini prawf. Caiff 10 sefydliad eu cydnabod yn Sefydliad Cydnabyddedig a phump yn Sefydliad Cyswllt.

Mae cydnabyddiaeth yn **Fyfyriwr Cyswllt** ar gael i fyfyrwyr sydd â'u bryd ar yrfa fel cyfieithwyr, ac yn fodd o annog a chefnogi myfyrwyr yn yr uchelgais hon. Cofrestrwyd wyth Myfyriwr Cyswllt newydd yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd gan y Gymdeithas 14 Myfyriwr Cyswllt. Mae'n braf nodi i ddau a oedd yn Fyfyriwr Cyswllt lwyddo yn Arholiadau Aelodaeth Testun mis Ebrill 2017 a dod yn aelodau Sylfaenol.

Nid yw'r un o'r categorïau hyn o gydnabyddiaeth yn golygu bod yn aelod o'r Gymdeithas.

3.6 Aelod sydd wedi ymddeol

Penderfynwyd sefydlu'r categori 'Aelod sydd wedi ymddeol' ar gyfer cyn-aelodau sydd am gadw cysylltiad â'r Gymdeithas wedi i'w hymwneud ffurfiol â'r Gymdeithas fel aelodau ddod i ben yn dilyn eu hymddeoliad. Nid yw'n gategori o aelodaeth, yn hytrach mae'n ddull o gydnabyddiaeth.

Hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd 14 o gyn-aelodau wedi rhoi gwybod eu bod am gadw cysylltiad â'r Gymdeithas fel hyn.



4. Amcan strategol 1: Cynnal a chynyddu'r aelodaeth, y drefn arholi

Nod yr amcan strategol hwn yw sicrhau y bydd y Gymdeithas yn cynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr, ac yn ymestyn ei dylanwad a'i heffaith trwy gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol.

Mae'r bennod hon yn ymdrin â materion yn ymwneud â threfn arholi'r Gymdeithas: yr Arholiadau Aelodaeth Testun a'r Prawf CAP.

4.1 Yr Arholiadau Aelodaeth Testun

Cynhaliwyd yr Arholiadau Aelodaeth Testun ar y lefelau Cyflawn a Sylfaenol ym mis Ebrill 2017 ac ym mis Hydref 2017. Dyma ystadegau'r arholiadau:

	Ebrill 2017		Hydref 2017	
Cyfanswm yr holl ymgeiswyr [1]	58		42	
	Ymgeiswyr	Llwyddo [2]	Ymgeiswyr	Llwyddo [3]
Cyflawn	22	6	13	5
Papur 1: i'r Gymraeg	21	4	11	4
Papur 2: i'r Saesneg	3	3	2	1
Sylfaenol	36	12	29	18
Papur 1: i'r Gymraeg	32	7	25	9
Papur 2: i'r Saesneg	13	6	15	9

Nodiadau

[1] Safodd rhai ymgeiswyr y ddau bapur

[2] Roedd wyth o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn arholiadau Ebrill 2017 yn aelodau. Cymeradwywyd aelodaeth i'r 10 ymgeisydd arall ac ymaelododd wyth ohonynt â'r Gymdeithas.

[3] Roedd chwech o'r ymgeiswyr llwyddiannus yn arholiadau Hydref 2017 yn aelodau. Cymeradwywyd aelodaeth i'r 17 ymgeisydd arall ac ymaelododd 13 ohonynt â'r Gymdeithas.

Cynhaliwyd yr arholiadau yng Ngholeg Ceredigion, Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd, a Choleg Meirion-Dwyfor, Glynllifon. Rydym yn ddiolchgar iawn i staff yn y sefydliadau hyn am eu cymorth a'u cydweithrediad parod. Hoffem hefyd ddiolch i'r arholwyr, y marcwyr a'r goruchwylwyr.



4.2 Yr arholiadau Cyflawn

Roedd y ffaith fod cynifer yn sefyll yr arholiadau Cyflawn yn dangos awydd cynyddol ymysg cyfieithwyr i gyrraedd safon wirioneddol broffesiynol yn eu gwaith, ac mae hynny'n galonddid.

Er bod y mwyafrif o'r ymgeiswyr aflwyddiannus yn bendant o fewn cyrraedd i lwyddo, boddi wrth ymyl y lan oedd hi yn achos nifer fawr o'r ymgeiswyr yn yr arholiadau i'r Gymraeg. Da yw gweld bod mwyafrif yr ymgeiswyr ar y lefel hon, felly, yn amlwg yn dod i ddeall beth yw safon cyfieithu proffesiynol.

Mae'n drueni gorfod nodi, unwaith yn rhagor, y gallasai'r canlyniad fod yn wahanol i ambell un petai'r gwaith wedi cael ei ddarllen yn fwy trylwyr cyn ei gyflwyno. Yn wir, roedd nifer o ymgeiswyr wedi llwyddo yn y darn cyntaf ond heb gael cystal hwyl ar yr ail. Ar y lefel hon mae'n rhaid gallu cynnal y safon ar hyd y ddau ddarn. Gwelir hyn i ryw raddau yn aml yn yr arholiadau, sy'n creu'r argraff nad yw'r ymgeiswyr wedi llwyddo i reoli eu hamser yn effeithiol. Yn sicr, mater o arfer da i bob ymgeisydd fyddai rhannu'r amser yn gyfartal rhwng y ddau ddarn, ac yna rannu'r awr honno fesul darn yn gyfartal rhwng y cyfieithu a'r darllen, er mwyn sicrhau'r copi glanaf posibl.

Yn anffodus, cafwyd rhai gwallau esgeulus oedd yn golygu na ellid barnu'n gwbl hyderus fod yr ymgeiswyr hynny'n barod i fod yn gyfieithwyr annibynnol. Er mai cymharol ychydig oedd y gwallau hyn yng ngwaith bron pob un o'r ymgeiswyr, ar y lefel hon mae'n rhaid prawf ddarllen yn fanwl a thrylwyr er mwyn sicrhau nad oes gwallau o'r math hwn yn y gwaith a gyflwynir.

Wrth droi at y cyfieithu i'r Saesneg, er mai nifer fechan sy'n sefyll yr arholiad hwn yn arferol, braf yw nodi fod gwaith yr ymgeiswyr ar y cyfan yn cynnwys digonedd o enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus a throadau ymadrodd da. Serch hynny, gwelwyd enghreifftiau o gyfieithu trwsgwl neu wallus oedd yn llithro o dan y safon.

Yr anogaeth i bob un sydd am sefyll yr arholiadau Cyflawn, p'un ai i'r Gymraeg neu i'r Saesneg, fyddai parhau i fireinio'u crefft a cheisio gwelliant parhaus yn eu gwaith, er mwyn sicrhau safon broffesiynol ym mhob cyfieithiad a luniant. Mae disgwyl i ymgeiswyr ar y lefel hon hefyd allu ymdopi â darnau sydd y tu allan i gylch eu profiad arferol, gan mai cadernid eu gafael ar batrymau'r iaith dan sylw yw un o'r meini prawf pwysicaf.

4.3 Yr arholiadau Sylfaenol

Fel yn achos yr arholiadau Cyflawn, gwelwyd sawl ymgeisydd digon addawol yn yr arholiadau Sylfaenol yn methu ar yr ail ddarn, i bob golwg oherwydd ei fod heb lwyddo i reoli ei amser yn ddigonol.

Wedi dweud hynny, yn yr arholiadau i'r Gymraeg roedd lefel y cyfieithu llwyddiannus yn amrywio gryn dipyn yn yr hyn a gyflwynwyd, ac er nad oedd fawr neb wedi cael ei lethu'n llwyr gan ofynion y darnau, prin iawn oedd yr ymgeiswyr a gyflwynodd waith y gellid dweud ei fod yn taro deuddeg drwyddo draw mewn Cymraeg uniongyrchol a naturiol. Serch hynny, fel mewn sawl rownd bellach, mae modd dweud bod yr ymgeiswyr yn dangos gwell ymwybyddiaeth o ofynion yr arholiad.



Gwallau ystyr neu gywirdeb elfennol y dylasai ymgeiswyr sylwi arnynt wrth ddarllen y gwaith cyn ei gyflwyno oedd y prif resymau fod ambell ymgeisydd digon addawol yn methu â chyrraedd y safon, gwallau na fyddid yn disgwyl eu gweld gan neb oedd yn honni bod yn gyfieithydd. Dylai unrhyw un sydd am fod yn gyfieithydd fod yn effro i'r math o wallau esgeulus a welwyd, yn enwedig methu â threiglo, a'i hyfforddi'i hun i sylwi arnynt wrth brawf ddarllen ei waith. Cofier hefyd y caiff ymgeiswyr ddefnyddio gwirydd sillafu yn yr arholiadau.

Yn yr arholiadau i'r Saesneg cafwyd gwaith o safon uwch yn y ddau arholiad. Cafwyd rhai papurau gwirioneddol ardderchog oedd yn haeddu marc rhagoriaeth. Yn arholiad Hydref 2017 yn enwedig plesiwyd yr arholwyr yn fawr gan safon y gwaith.

Fel cynifer o weithiau o'r blaen, prif wendid yr ymgeiswyr aflwyddiannus oedd anallu i gyfleu ystyr y gwreiddiol mewn Saesneg oedd yn llifo'n naturiol. Teimlid o bosib nad oedd ambell un wedi cael digon o brofiad o gyfieithu i'r Saesneg. Roedd dewis ambell un o eirfa yn wan oherwydd eu bod heb ymdeimlo'n ddigonol â chyweiriau'r Saesneg, ac roedd diffyg ymwybyddiaeth o batrymau naturiol y Saesneg yn amlwg.

Y neges i'r holl ymgeiswyr, yn rhai llwyddiannus ac aflwyddiannus, p'un ai i'r Gymraeg neu i'r Saesneg, fyddai i fynd ati o ddifri i ddadansoddi eu gwaith cyfieithu a threiddio o dan yr wyneb i gael hyd i'r ystyr a'r neges waelodol. Dylai pob un hefyd fanteisio ar bob cyfle i gryfhau eu sgiliau ymhellach a manteisio ar bob cyfle i ddarllen Cymraeg a Saesneg graenus ac ymgyfarwyddo ymhellach â phatrymau'r ddwy iaith.

4.4 Y gwobrau blynyddol

Ers 2007 mae'r Gymdeithas wedi dyfarnu Gwobr Goffa Wil Petherbridge - er cof am gyn-Ysgrifennydd y Gymdeithas ac arloeswr ym myd cyfieithu yng Nghymru - i'r ymgeisydd mwyaf addawol am Aelodaeth Sylfaenol, cyfieithu i'r Gymraeg, os bernir bod teilyngdod.

Ddegawd yn ddiweddarach mae'n braf gallu nodi y dyfernir ail wobwr yn achos yr arholiadau am Aelodaeth Sylfaenol, Gwobr Berwyn, a gaiff ei roi i'r ymgeisydd mwyaf addawol am Aelodaeth Sylfaenol, cyfieithu i'r Saesneg, os bernir bod teilyngdod. Y Berwyn sy'n rhoi ei enw i'r wobwr yw Berwyn Prys Jones, Cadeirydd y Gymdeithas am y rhan helaethaf o'r 41 mlynedd ers sefydlu'r Gymdeithas. Roedd y Cyfarwyddwyr yn eithriadol o falch o enwi'r wobwr hon er anrhydedd i un a wnaeth gyfraniad aruthrol i fyd cyfieithu ac a roddodd arweiniad sicr i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn ystod ei yrfa faith a llwyddiannus fel cyfieithydd uchel ei barch.

Dyfarnwyd **Gwobr Goffa Wil Petherbridge** yn 2017 i Aled Meredydd Davies (ar sail ei bapur yn arholiadau mis Ebrill 2017). Mae Aled yn gyfieithydd ar ei liwt ei hun ac yn byw ym Mancffosfelen.

Enillydd cyntaf **Gwobr Berwyn** oedd Sophie Smith (ar sail ei phapur yn arholiadau mis Hydref 2017). Ar y pryd roedd Sophie'n gweithio fel cyfieithydd i Gyngor Dinas a Sir Abertawe, ond bellach mae'n gyfieithydd yng Ngholeg Gŵyr Abertawe.

Cynhaliwyd seremoni ym mis Mawrth 2018 yn Yr Hen Lyfrgell, Caerdydd i gyflwyno'r gwobrau i Aled a Sophie. Llongyfarchiadau i'r ddau.



4.5 Y Prawf CAP

Cynhaliwyd dau Brawf CAP, y naill i'r Saesneg, yn ôl ein harfer ym mis Rhagfyr 2017, a'r llall i'r Gymraeg, am y tro cyntaf ar 14 Mawrth 2018.

Cynhaliwyd y Prawf CAP i'r Gymraeg o ganlyniad i'r penderfyniad i sefydlu ail gategori o aelodaeth CAP, sef CAP i'r Gymraeg. Penderfynwyd cyfyngu'r Prawf CAP cyntaf hwn i aelodau CAP yn unig. Y bwriad yw ei gynnig i eraill o 2018-19 ymlaen. Bydd y Prawf CAP newydd i'r Gymraeg yn debyg i'r Prawf CAP i'r Saesneg, sef cyfieithu dau ddarn gwrthgyferbyniol o ryw 10 munud o hyd, a defnyddio'r un drefn asesu.

Cynhaliwyd y ddau Brawf CAP yn stiwdios sain proffesiynol Stiwdio Aran, Groeslon, ger Caernarfon a CTV, Caerdydd. Rydym yn ddiolchgar iawn i staff yn y ddwy stiwdio am eu cymorth a'u cydweithrediad parod. Hoffem hefyd ddiolch i'r arholwyr, yr aseswyr a'r goruchwyliwr.

4.6 Y Prawf CAP i'r Saesneg

Cafwyd pedwar ymgeisydd ar gyfer y Prawf CAP i'r Saesneg, bob un yn gweithio yn y sector cyhoeddus, tri yn y Groeslon ac un yng Nghaerdydd. Dim ond un o'r ymgeiswyr a lwyddodd.

Teg yw dweud bod y safon yn y Prawf CAP hwn yn is na'r hyn a welwyd mewn profion blaenorol. Prif wendid yr ymgeiswyr oedd y gystrawen a'r gallu i greu brawddegau a oedd yn gwneud synnwyr yn y Saesneg. O'r herwydd, cafwyd nifer o enghreifftiau o gyfieithu trwsogl ac anidiomatig. Siom hefyd oedd y lluo o enghreifftiau a glywyd o gam-gyfieithu geiriau sylfaenol.

Teimlwyd bod ambell ymgeisydd wedi sefyll y Prawf CAP yn rhy gynnar. Byddai'r ymgeiswyr hynny wedi elwa o ehangu eu profiad, cysgodi cyfieithwyr profiadol, a pharhau i ddatblygu'r grefft o gyfieithu ar y pryd yn gyffredinol cyn mentro sefyll y Prawf CAP.

Byddai'n fuddiol hefyd iddynt wrando ar raglenni materion cyfoes Saesneg er mwyn gwella'r cystrawennu a chyfieithu'n fwy idiomatig, yn ogystal ag ehangu eu geirfa a chynyddu eu gwybodaeth.

4.7 Y Prawf CAP i'r Gymraeg

Cafwyd wyth ymgeisydd ar gyfer y Prawf CAP cyntaf i'r Gymraeg, tri yn y Groeslon a phump yng Nghaerdydd. Llwyddodd pedwar o'r ymgeiswyr.

Roedd safon yr ymgeiswyr yn amrywio'n fawr. Roedd gwaith y goreuon yn enghreifftiau o gyfieithu cadarn, diogel, oedd yn llwyddo i gyfleu ystyr a naws y gwreiddiol yn llawn, er mwyn i'r gwrandawr gael y darlun cyflawn. Cafodd eraill anhawster cyfleu'r holl elfennau pwysig, ac roedd teimlad efallai nad oedd ambell un wedi cael digon o gyfle i feithrin profiad wrth gyfieithu i'r Gymraeg. Er bod pethau da yng ngwaith pob un o'r ymgeiswyr aflwyddiannus, nid oeddynt wedi cyflawni pob un o ofynion y prawf yn llwyddiannus ar y diwrnod.



5. Amcan strategol 2: Hybu datblygu proffesiynol

Nod yr amcan strategol hwn yw sicrhau cyfleoedd i gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd a fydd yn eu helpu i wella, cynyddu a datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Bydd hyn yn fodd o hyrwyddo sgiliau proffesiynol a chyflogadwyedd yr aelodau.

Roedd y gweithgareddau i hybu datblygu proffesiynol yn amrywiol, ac yn cynnwys gweithdai, yr e-weithdy cyfieithu, y ddarlith flynyddol, Slam Cyfieithu a Diwrnod i'r Aelodau. Penderfynwyd hefyd greu Cronfa Sbarduno.

Fel yn y gorffennol, cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r agwedd hon ar waith y Gymdeithas, arwydd sicr fod galw am weithdai a bod angen rhagor o weithgareddau hyfforddi. Mae darpariaeth y Gymdeithas yn y maes hwn yn llenwi bwlch pwysig serch nad yw'r ddarpariaeth hon mor helaeth ag yr arferai fod. Roedd y rhai a fanteisiodd ar y cyfleoedd hyn yn gweithio yn y sector cyhoeddus, mewn cwmnïau cyfieithu preifat neu ar eu liwt eu hunain. Mae hyn yn arwydd clir fod cyfieithwyr ar draws y proffesiwn/diwydiant yn ei gyfanrwydd yn gweld gwerth mewn buddsoddi yn eu datblygiad proffesiynol. Roedd sawl un a oedd yn ystyried gyrfa fel cyfieithydd hefyd ymhlith y rhai a gymerodd ran yn yr hyfforddiant.

5.1 Gweithgareddau hyfforddi

Trefnwyd tri **gweithdy wyneb yn wyneb** yn ystod y flwyddyn. Gan ddilyn y patrwm a fabwysiadwyd ers sawl blwyddyn, fe'u cynhaliwyd mewn mwy nag un lleoliad er mwyn eu gwneud mor hygyrch â phosib i gyfieithwyr ym mhob rhan o Gymru. Y gweithdai a gynhaliwyd oedd:

- gweithdy ar gyfieithu peirianyddol. Gruffydd Jones oedd y tiwtor, a chyflwynwyd y gweithdy mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Fe'i cynhaliwyd yng Ngholeg Glynllifon (daeth 16 iddo), ym Mhrifysgol Caerdydd (daeth 18 iddo) ac ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin (daeth 17 iddo).

- 'Wyneb yn Wyneb', gweithdy i Aelodau CAP yn unig. Y tiwtor oedd Zora Jackman. Daeth 14 i'r gweithdy a gynhaliwyd yn y Senedd yng Nghaerdydd.

- '2 ... 5 ... 250', gweithdy i baratoi pobol at yr Arholiad Aelodaeth Sylfaenol, cyfieithu i'r Gymraeg, dros gyfnod o chwe wythnos, ac a oedd yn gyfuniad o aseiniadau a mynd i ddau weithdy. Y tiwtoriaid oedd Menna Wyn ac Eirlys Williams. Manteisiodd 13 ar yr hyfforddiant hwn.



Ar y cyd â GLITEM, cynhaliwyd seminar yng Nghanolfan Cyfiawnder Caernarfon ar gyfer Aelodau CAP oedd wedi mynegi diddordeb mewn cael y gydnabyddiaeth MAP: Cyfieithu yn y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd. Bu pum aelod ynddo. Cadeirydd y seminar oedd y Barnwr Dosbarth Hywel James, Dirprwy Farnwr Cyswllt yr Iaith Gymraeg. Roedd y rhaglen yn cynnwys cyflwyniad i weithdrefnau a threfniadau gweithio yn y gwahanol lysoedd, sesiwn holi ac ateb Ann Llwyd am ei phrofiadau o gyfieithu ar y pryd yn y llysoedd, a chyfle i bob un gyfieithu mewn ffug dreial.

Cynhaliwyd **diwrnod o hyfforddiant i aelodau'r Gofrestr Marcwyr**. Roedd y pwyslais ar gyflwyno'r drefn arholi a marcio i aelodau newydd y Gofrestr Marcwyr a rhoi'r cyfle iddynt wneud hynny yng nghwmni marcwyr profiadol. Daeth 13 iddo gan gynnwys pedwar o farcwyr newydd a wahoddwyd i ymuno â'r Gofrestr Marcwyr.

Parhaodd poblogrwydd yr **e-weithdy cyfieithu** fel dull effeithiol o ddysgu ac o gynnig hyfforddiant i bobl yn eu hamser eu hunain, ond o fewn amserlen a strwythur. Cynigir yr e-weithdy cyfieithu ar lefelau Cyflawn a Sylfaenol ar wahân. Yn yr e-weithdy cyfieithu bydd rhywun yn cyfieithu dau ddarn o'r un hyd a safon â darnau'r arholiad perthnasol, a chael sylwadau ar eu cyfieithiadau gan diwtor sy'n gyfieithydd profiadol ac yn aelod o Gofrestr Marcwyr arholiadau'r Gymdeithas. Cynhaliwyd pedwar e-weithdy cyfieithu yn ystod y flwyddyn, dau ar y lefel Gyflawn a dau ar y lefel Sylfaenol. Ar y lefel Gyflawn, cymerodd 19 unigolyn ran ynddo (17 i'r Gymraeg ac 3 i'r Saesneg). Ar y lefel Sylfaenol, cymerodd 50 unigolyn ran ynddo (44 i'r Gymraeg ac 18 i'r Saesneg).

Cynhaliwyd un **Ymarfer CAP**. Rhydd yr Ymarfer CAP gyfle i rywun gyfieithu dau ddarn o'r un hyd a safon ag a geir ym Mhrawf CAP y Gymdeithas, a chael sylwadau ar eu cyfieithiadau gan diwtor sy'n gyfieithydd ar y pryd profiadol ac yn un o aseswyr Prawf CAP y Gymdeithas, yn ogystal â'r cyfle i ymgysgu â lleoliad ac amgylchiadau'r Prawf CAP. Cymerodd pedwar ran ynddo (tri yn Stiwdio Aran ac un yn CTV).

Ymatebwyd i geisiadau am **hyfforddiant wedi'i deilwra** i anghenion penodol y sefydliad a wnaeth y cais. Trefnwyd hyfforddiant i gyfieithwyr yr Asiantaeth Safonau Bwyd (3), i gyfieithwyr Heddlu Gogledd Cymru (2) ac i gyfieithwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (6).

Lluniwyd pedwar **Ymarfer ar y lefel Sylfaenol** i'w gosod ar wefan y Gymdeithas yn dilyn arholiadau mis Ebrill 2017 a mis Hydref 2017, dau i'r Gymraeg a dau i'r Saesneg. Dyma'r tro cyntaf i ymarferion newydd gael eu hychwanegu at y rhai gwreiddiol. O hyn ymlaen bwriedir ychwanegu ymarferion newydd ar ôl pob arholiad.

Ym mis Mawrth 2018, yn Yr Hen Lyfrgell, Caerdydd, cynhaliwyd **Y Slam Cyfieithu** cyntaf yn y Gymraeg. Lowri Roberts oedd y cadeirydd, a thrafodwyd cyfieithiadau a wnaed gan David Bullock a Ben Screen. Daeth 18 iddo.



5.2 Balchder Crefft: Datblygu Proffesiynol Parhaus, ei fanteision

Cafodd cynllun DPP y Gymdeithas, 'Balchder Crefft: Datblygu Proffesiynol Parhaus, ei fanteision', ei adolygu. Dyma drydedd fersiwn y ddogfen ac mae'n cyfuno'r ddwy ddogfen a gyhoeddwyd eisoes, sef 'Balchder Crefft' (Medi 2014) a 'Datblygu Proffesiynol Parhaus, ei fanteision' (Mawrth 2016), ac yn eu disodli.

Bwriad y ddogfen hon yw cynnig canllaw hwylus a fydd yn helpu ac yn annog aelodau'r Gymdeithas i ystyried pwysigrwydd DPP ac i lunio cynllun DPP personol. Bydd hefyd yn cynnig arweiniad i aelodau ynghylch pa weithgaredd DPP, a faint ohono, sydd fwyaf addas a pherthnasol i'w anghenion a'u dyheadau. Gall pob aelod gofnodi ei weithgarwch DPP yn ei Gofnod Aelodaeth ar wefan y Gymdeithas, cofnod y gall yr aelod ei hun a staff y Gymdeithas yn unig ei weld.

5.3 Diwrnod i'r Aelodau 2017

Cynhaliwyd y Diwrnod i'r Aelodau ym mis Hydref 2017 ym Mhrifysgol Bangor. Bu Elinor Gwynn yn trafod siwrne ieithyddol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; cyfieithu a Safonau'r Gymraeg oedd pwnc Ifan Prys, a chafwyd cyflwyniad dan y teitl 'Geiriadur y Bragwr a'r Bardd' gan Myrddin ap Dafydd. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol 2017 yn ystod y diwrnod hefyd. Roedd 22 o aelodau yn bresennol.

5.4 Darlith Goffa Hedley Gibbard

Cynhaliwyd y Ddarlith Goffa yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn yn ôl ein harfer. Bedwyr Rees draddododd y ddarlith a'i destun oedd 'Trwyn y Balog: enwau o'r Moelfre i'r Leinws'.

5.5 Y Gronfa Sbarduno

Penderfynwyd creu'r Gronfa Sbarduno, cronfa newydd i'w defnyddio i gefnogi datblygiad cyfieithwyr. Bwriedir defnyddio arian y Gronfa tuag at:

- y gwobrau i'r ymgeiswyr mwyaf addawol yn yr arholiadau Sylfaenol, cyfieithu i'r Gymraeg (Gwobr Goffa Wil Petherbridge), a chyfieithu i'r Saesneg (Gwobr Berwyn) os bydd teilyngdod. Yn ogystal â'r wobwr ariannol, bydd yr enillwyr yn cael dilyn un e-weithdy cyfieithu am ddim.

- cyfleoedd i aelodau Sylfaenol sy'n dod i'r brig wrth ystyried y gwobrau yn yr arholiadau i gael eu mentora gan aelodau profiadol o'r Gymdeithas.

- cynnig gwobrau blynyddol i'r myfyriwr mwyaf addawol ar gynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol Prifysgol Aberystwyth, ac i fyfyrwr mwyaf addawol y Dystysgrif Ôl-Raddedig CAP Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Ariennir y Gronfa Sbarduno o roddion a roddwyd i'r Gymdeithas a ffioedd na chawsant eu hawlio, yn ogystal â chanran o'r tâl aelodaeth a gaiff ei ychwanegu at y gronfa bob blwyddyn.

Lansiwyd y Gronfa Sbarduno yn y Diwrnod i'r Aelodau ar 13 Hydref 2017.



6. Amcan strategol 3: Cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol

Nod yr amcan strategol hwn yw cynnal a datblygu perthynas y Gymdeithas â gwahanol gyrff a sefydliadau, a meithrin partneriaethau allweddol. Bydd y rhain yn gyrff a sefydliadau y tu mewn a'r tu allan i'r byd cyfieithu, yng Nghymru a'r tu hwnt. Wrth wneud hyn, gallwn fod yn eiriol dros y Gymdeithas a'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg/Saesneg mewn mannau dylanwadol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth cyrff a sefydliadau o werth a mantais defnyddio'r Gymraeg.

6.1 Cyrff a sefydliadau yn y byd cyfieithu

Cafodd y Prif Weithredwr gyfarfodydd â phenaethiaid cwmnïau cyfieithu ac unedau cyfieithu mewn sefydliadau cyhoeddus, lle cafwyd cyfle i gyfnewid gwybodaeth am y naill a'r llall, ac i drafod ac egluro gwaith a gwasanaethau'r Gymdeithas a manteision hynny i'r cwmni/sefydliad ac i'w gyfieithwyr. Cafodd wahoddiad hefyd i gyfarfod o Swyddogion Iaith y GIG yn y Drenewydd ym mis Mehefin 2017.

Roedd y Prif Weithredwr yn aelod o Weithgor Safoni Termau GLITEM, a bu yn y ddau gyfarfod a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

Parhaodd y Gymdeithas i gynnal ei pherthynas a'i chysylltiadau â chymdeithasau a chyrrff cyfieithu, yn eu plith yr Institute of Translators and Interpreters (ITI), grŵp ITI Cymru/Wales, Chartered Institute of Linguists, a'r National Register of Public Service Interpreters.

Mae'r Gymdeithas yn aelod o'r Professional Interpreters for Justice (PI4J), grŵp ymbarél y daw ei aelodau o blith cymdeithasau proffesiynol, rheoleiddiwr annibynnol gwirfoddol cyfieithwyr ar y pryd, ac undebau. Nod y grŵp yw cynrychioli buddiannau cyfieithwyr ar y pryd yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys y sector cyfiawnder, a hybu cysylltiadau cadarnhaol rhwng y rhai y mae'n eu cynrychioli a defnyddwyr y gwasanaethau hynny. Bu'r Prif Weithredwr yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd Pwyllgor Llywio PI4J yn ystod y flwyddyn.

Roedd y Prif Weithredwr yn un o'r panelwyr yn lansiad 'UK Translator Survey' 2016 yn swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yn Llundain.

Roedd y Prif Weithredwr yn aelod o'r pwyllgor a fu'n adolygu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Cyfieithu ar y Pryd. Cyhoeddwyd y rhain ym mis Rhagfyr 2017.

Mae'r Gymdeithas yn aelod o FIT (Fédération Internationale des Traducteurs / International Federation of Translators), sef y gymdeithas ryngwladol sy'n cynrychioli buddiannau cymdeithasau cyfieithu proffesiynol.



6.2 Sefydliadau Addysg Uwch

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o Gonsortiw m Astudiaethau Cyfieithu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bwriad y Consortiw m yw cadw trosolwg strategol ar y ddarpariaeth academaidd a ddarperir gan gynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol Prifysgol Aberystwyth (a gaiff ei ariannu gan y Coleg) a Thystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y Pryd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae'r Consortiw m yn cynnig arweiniad a chynghor er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth academaidd yn adlewyrchu anghenion hyfforddi'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu, yn ogystal â'r safon a'r rychwant sgiliau angenrheidiol sydd yn ddisgwyliedig gan gyfieithydd proffesiynol ar ddechrau ei yrfa. Bu'r Prif Weithredwr yn y ddau gyfarfod a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

Roedd y Prif Weithredwr yn un o'r panelwyr yn y gynhadledd 'Heriau Cyfieithu Heddiw' a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth ar 27 Hydref 2017.

Rhoddodd y Gymdeithas ei chefnogaeth lawn i gais gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i Lywodraeth Cymru am gyllid i greu llwyfan ar gyfer CAP, cais a fu'n llwyddiannus.

Bydd y Gymdeithas yn cynnig gwobrau o'r Gronfa Sbarduno newydd i fyfyrwr mwyaf addawol y flwyddyn ar y ddau gwrs hyn. Caiff y gwobrau eu rhoi am y tro cyntaf yn 2018.

6.3 Cyrff a sefydliadau yng Nghymru

Mae'r Gymdeithas yn aelod o Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg, sef casgliad o fudiadau sy'n hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg y mae Uned y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ei gydlynw a'i weinyddu. Bu'r Prif Weithredwr yn y ddau gyfarfod a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

Parhaodd y Gymdeithas i fod yn un o bartneriaid **yr Her Gyfieithu**, cystadleuaeth a drefnir gan Gyfnwidfa Lân Cymru mewn cydweithrediad â Wales PEN Cymru. Y Gymdeithas, unwaith yn rhagor, a noddodd y Ffon Farddol, o waith Elis Gwyn, Llanystumdwy. Cyflwynir hon i enillydd y gystadleuaeth i'r Gymraeg, ac enillydd Her Gyfieithu 2017 i'r Gymraeg oedd Sian Cleaver.

Am y drydedd flwyddyn cynhaliwyd **cystadleuaeth cyfieithu i'r oedran 19-25 yn Eisteddfod yr Urdd**, sy'n ffrwyth cydweithio rhwng y Gymdeithas a'r Urdd. Yr enillydd oedd Lora Angharad Lewis, Aelod Unigol Cylch Llŷn. Ei gwobr oedd treulio diwrnod yng Ngwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi'r Cynulliad Cenedlaethol, y partner arall yn y gystadleuaeth yr ydym yn gwerthfawrogi eu cydweithrediad parod.

Mae'r Gymdeithas yn aelod o: Dathlu'r Gymraeg, Dyfodol i'r Iaith, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a Mantell Gwynedd.



7. Amcan strategol 4: Codi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol

Nod yr amcan strategol hwn yw codi proffil y Gymdeithas, hybu ein gwerthoedd proffesiynol, hyrwyddo gwasanaethau proffesiynol ein haelodau, a marchnata gweithgareddau a gwasanaethau'r Gymdeithas.

Bwriad y gweithgareddau marchnata a chyfathrebu, wrth gefnogi a hyrwyddo nod ac amcanion y Gymdeithas, oedd creu perthynas gadarnhaol â'r gwahanol garfanau y mae angen i'r Gymdeithas ymgysylltu â hwy, sef ei haelodau, darpar aelodau, cyfieithwyr eraill, sefydliadau a chyrff, comisiynwyr cyfieithu, ac eraill y tu allan i'r byd cyfieithu (megis gwleidyddion a sefydliadau). Bydd y gweithgareddau hyn hefyd yn fodd o dynnu sylw at swyddogaeth y Gymdeithas fel y corff proffesiynol i gyfieithwyr Cymraeg/Saesneg, ac at sicrhau proffil uchel i bob agwedd ar waith y Gymdeithas.

Mae gwefan y Gymdeithas - <https://www.cyfieithwyr.cymru/cy> - yn ganolog i weithgarwch marchnata a chyfathrebu'r Gymdeithas. Dyma'r unig le yn y byd i chwilio am wybodaeth am y byd cyfieithu Cymraeg.

I'r rhai sy'n chwilio am gyfieithydd neu gyfieithydd ar y pryd, mae gwasanaeth ar y wefan sy'n hwylus ac yn hawdd ei ddefnyddio i ddod o hyd i gyfieithydd, a hynny'n rhad ac am ddim. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys Cofnod Aelodaeth pob aelod sydd wedi rhoi ei ganiatâd i'r wybodaeth amdano ymddangos ar y wefan.

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau y mae eu hangen ar gyfieithwyr ac unigolion sydd â'u bryd ar fod yn aelodau o'r Gymdeithas, gan gynnwys gwybodaeth am weithdai, cyn-bapurau arholiad ac adroddiadau'r Prif Arholwr, yr Ymarferion, a phob math o adnoddau defnyddiol megis geiriaduron a rhestrau termau. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys tudalen Newyddion a thudalen Swyddi (ar gyfer swyddi cyfieithu yn unig).

Hefyd, er mwyn tynnu sylw at weithgareddau'r Gymdeithas, gwnaed defnydd helaeth o gyfrif 'Twitter' y Gymdeithas - @cyfieithwyr - a gosodwyd hysbysebion yn y wasg.

Bu'r Prif Weithredwr ar raglen Radio Wales 'Wales at Work' (18 Mai 2017), ar Newyddion 9 ar S4C (19 Mai 2017) - y ddau gyfweiliad yn sgil cynhadledd ITI yng Nghaerdydd - a hefyd ar Raglen John Walter ar Radio Cymru a oedd yn ymdrin â chyfieithu (25 Hydref 2017).

Mewn partneriaeth â Hunaniaith, Cyngor Gwynedd, cynhyrchwyd taflen A5 ddwyieithog am wasanaethau'r Gymdeithas a oedd yn rhan o becyn i fusnesau a mudiadau yng Ngwynedd. Fel rhan o'r un cynllun roedd Hunaniaith yn cynnig gwasanaeth CAP i fusnesau a mudiadau lleol gan ddefnyddio aelodau CAP y Gymdeithas.



Yn ystod y flwyddyn cyflwynodd y Gymdeithas dystiolaeth ysgrifenedig i ddau ymgynghoriad. Roedd yr ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad, yn canolbwyntio ar swyddogaeth bwysig cyfieithu wrth ddatblygu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth Llywodraeth Leol ac wrth weithredu Safonau'r Gymraeg. Wrth gynnig sylwadau ar Gynllun Iaith Gymraeg 2018-21 Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM roedd y Gymdeithas yn falch iawn o weld fod y Cynllun yn cydnabod y berthynas gref sy'n bodoli rhwng y Gymdeithas a GLITEM, yn enwedig y ffaith fod y Cynllun yn nodi'n benodol y trefniadau sy'n bodoli ynghylch cyfieithu ar y pryd yn y llysoedd a'r triwilysoedd.



8. Llywodraethiant a rheolaeth

8.1 Rheoli'r Gymdeithas

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf. yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Fe'i corfforwyd yn 2003 o dan yr enw hwn yn unig. Rhif cofrestredig y cwmni yw 4741023. Cyfeiriad y swyddfa gofrestrdig yw Bryn Menai, Ffordd Caergybi, Bangor, LL57 2JA. Prif Weithredwr y Gymdeithas, Geraint Wyn Parry, yw Ysgrifennydd y Cwmni.

Rheolir y Gymdeithas gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a etholir o blith holl aelodau'r Gymdeithas. Ar 31 Mawrth 2018, aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr oedd: David Bullock, Mari Lisa Davies, Bethan Mair Evans, Fiona Gannon, Hywel Gwynn Hughes, Catherine Jones, Mary Jones, Hywel Pennar, Ifan Prys, Claire Richards (Cadeirydd), Huw Tegid Roberts.

Cyfarfu Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 6 Ebrill 2017, 19 Gorffennaf 2017, 7 Rhagfyr 2017 a 15 Mawrth 2018.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ar 13 Hydref 2017 yn Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor.

Mae gan y Gymdeithas dri Bwrdd/Pwyllgor arall, sef y Bwrdd Arholi Testunau (y mae iddo dri aelod craidd, sef y Prif Arholwr a'r ddau ddirprwy, ynghyd â marcwyr y rownd honno o arholiadau a ddewisir o blith y Gofrestr Marcwyr), y Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd (y mae iddo ddau aelod craidd, sef y Prif Arholwr a'r dirprwy, ynghyd ag aseswyr y prawf CAP hwnnw a ddewisir o blith y Gofrestr Aseswyr CAP), a'r Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol (sy'n cyfarfod yn ôl yr angen).

Fiona Gannon yw Prif Arholwr y Gymdeithas ac mae ganddi gyfrifoldeb am yr Arholiadau Aelodaeth (Testun) a'r Prawf CAP.

8.2 Y sefyllfa ariannol

Cafwyd grant o £50,000 gan Lywodraeth Cymru tuag at ariannu rhai o weithgareddau'r Gymdeithas y cytunwyd arnynt mewn set o dargedau.

Y brif ffynhonnell arall o incwm i'r Gymdeithas oedd y taliadau aelodaeth, sef £52,594.

Roedd yr incwm a gafwyd yn fodd i'r Gymdeithas barhau i gyflogi dau aelod staff amser-llawn, yn ogystal â chyflawni'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Dengys y cyfrifon fod gan y Gymdeithas gronfa o £140,166 ar ddiwedd y flwyddyn.

Paratowyd yr Adroddiad Ariannol (heb archwiliad) gan Owain Bebb a'i Gwmni, Caernarfon. Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol â FRS 102, Rhan 1A.



Gair i gloi gan y Prif Weithredwr, Geraint Wyn Parry

Unwaith eto, hoffwn ddatgan fy niolch a'm gwerthfawrogiad i Nia Wyn Jones am ei gwaith caled a'i hymroddiad i'r Gymdeithas.

Hoffwn gydnabod hefyd y gefnogaeth gyson a gefais gan Claire Richards, Cadeirydd y Gymdeithas. Ga'i ddiolch iddi hi ac i holl aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr am eu doethineb wrth gyflawni eu gwaith, ac am eu ffyddlondeb i gyfarfodydd y Bwrdd.

Mae Fiona Gannon, ein Prif Arholwr, yn un sy'n chwarae rhan allweddol yng ngwaith y Gymdeithas. Hoffwn ddiolch iddi hithau am ei harweiniad cadarn wrth lywio gweithgarwch pwysica'r Gymdeithas.

Mae nifer o aelodau, ac eraill, yn gwasanaethu'r Gymdeithas mewn ffyrdd eraill, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r rhai sy'n cyfrannu at waith y Gymdeithas fel arholwyr a marcwyr arholiadau, fel tiwtoriaid gweithdai, fel goruchwylwyr yr arholiadau, a'r rhai sydd mor barod i gynorthwyo pan af ar eu galw ynghylch rhyw dasg neu'i gilydd. Mae'r cydweithio braf rhwng y staff a'r aelodau trwy'r ymwneud hwn yn un o gryfderau mawr y Gymdeithas, a hir y parhaed hynny.

Caiff y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Hoffwn ddiolch am y grant hwn sydd wedi dod ag elfen gref o sefydlogrwydd i'r Gymdeithas, yn ogystal â chaniatáu i ni barhau â chenhadaeth bwysig y Gymdeithas wrth iddi gynnal safonau cyfieithu proffesiynol.

